# Agenda - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 25 Mehefin 2018

Amser: 13.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@cynulliad.cymru

## Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod

(13.45-14.00)

## 1 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i benodi Cadeirydd dros dro

(14.00-14.05)

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.05)

## 3 Hub Cymru Africa - sesiwn dystiolaeth

(14.05-15.05) (Tudalennau 1 - 45)

Cat Jones, Hub Cymru Affrica

Aileen Burmeister, Cymru Masnach Deg

Kathrin Thomas, Rhwydwaith Cysylltiadau Cymru o Blaid Affrica

Fadhili Maghiya, Panel Cynghori Is-Sahara

## 4 Papurau i'w nodi

(15.05-15.10)

**4.1 Papur i'w nodi 1 - Gohebiaeth oddi wrth Greg Hands AS, y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach, ynghylch goblygiadau polisi masnach y dyfodol - 11 Mehefin 2018**

(Tudalennau 46 - 47)

**4.2 Papur i'w nodi 2 - Gohebiaeth oddi wrth y Llywydd at y Prif Weinidog ynghylch yr UE (y Bil Ymadael) a chyfraith amgylcheddol - 14 Mehefin 2018**

(Tudalennau 48 - 49)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**4.3 Papur i'w nodi 3 – Gohebiaeth oddi wrth Mick Antoniw, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch y cytundeb rhynglywodraethol ar Fil yr UE (Ymadael) – 19 Mehefin 2018**

(Tudalennau 50 - 51)

**4.4 Papur i'w nodi 4 – Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at Mick Antoniw, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch y cytundeb rhynglywodraethol ar Fil yr UE (Ymadael) – 19 Mehefin 2018**

(Tudalen 52)

**4.5 Papur i'w nodi 5 – Gohebiaeth oddi wrth y Llywydd at Karl Heinz Lambertz, Llywydd Pwyllgor y Rhanbarthau Ewrop ynghylch Pwyllgor y Rhanbarthau – 19 Mehefin 2018**

(Tudalennau 53 - 54)

**4.6 Papur i'w nodi 6 – Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch y cytundeb rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU – 19 Mehefin 2018**

(Tudalennau 55 - 57)

**4.7 Papur i'w nodi 7 – Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch yr ymchwiliad i'r cyfnod pontio ar gyfer gadael yr UE – 19 Mehefin 2018**

(Tudalennau 58 - 61)

**4.8 Papur i'w nodi 8 – Gohebiaeth oddi wrth Robin Walker AS, yr Is-ysgrifennydd Seneddol dros Ymadael â'r UE, ynghylch yr ymchwiliad i'r cyfnod pontio ar gyfer gadael yr UE – 20 Mehefin 2018**

(Tudalennau 62 - 64)

**4.9 Papur i'w nodi 9 – Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi at Angus MacNeil AS, Cadeirydd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Fasnach Ryngwladol, ynghylch strategaeth fasnach y DU ar ôl Brexit – 21 Mehefin 2018**

(Tudalennau 65 - 68)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.10)

## 6 Hub Cymru Africa – trafod y dystiolaeth

(15.10–15.20)

## 7 Sesiwn friffio ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

(15.20–15.30) (Tudalennau 69 – 80)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4.1

Department for International Trade

**Rt Hon Greg Hands MP**

**Department for International Trade**
King Charles Street
Whitehall
London
SW1A 2AH

T +44 (0) 20 7215 5000
E enquiries@trade.gsi.gov.uk
W www.gov.uk

**Our ref: MCDC2018/02651**

David Rees AM
Chair of the External Affairs and Additional Legislation Committee
National Assembly for Wales
Cardiff, CF99 1NA

E-mail: Rhys.Morgan2@assembly.wales

11th June 2018

Dear David,

Thank you for your letter dated 16 May regarding the implications of future trade policy for Wales. I would be delighted to attend the meeting of the External Affairs and Additional Legislation Committee.

Firstly, let me assure you that we are committed to ensuring that the devolved administrations and legislatures have the opportunity to engage with and contribute to our trade policy.

We have established 14 Trade Working Groups across 21 countries, to explore the best ways of progressing our trade and investment relationships across the world. These working groups include engagement with the United States, the Andean Community (covers Peru, Colombia and Ecuador), Australia, Canada, China, the Gulf Cooperation Council (GCC – comprising Bahrain, Kuwait, Oman, Qatar, Saudi Arabia and the UAE), Israel, India, Japan, Mexico, New Zealand, Norway, Turkey and South Korea. In addition to seeking continuity for our existing EU trade agreements (where these are in place), these working groups also provide a forum to prepare for the negotiation of wholly new Free Trade Agreements (FTAs) with key partners as we leave the EU.

International relations is of course a reserved matter. That is why these working groups are delivered by the UK Government on behalf of the whole of the UK. Having said that, we are keen that the Devolved Administrations have a role supporting preparations for the negotiation of future trade agreements. It is precisely for this reason that my Department has established a programme of work with the Devolved Administrations to facilitate how your Government and the other Devolved Administrations can inform the development of an independent UK trade policy over the course of 2018, particularly where trade interacts with areas of devolved competence.

I welcome the opportunity to attend the External Affairs and Additional Legislation Committee to discuss this further. Given the Committee's role in examining the Trade Bill, I would also welcome the opportunity to discuss this Bill with the Committee in more detail. My officials will be in contact with the Committee clerks to make arrangements.

Yours,

**RT HON GREG HANDS MP**

Minister of State for Trade Policy

Department for International Trade

Eitem 4.2

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/CW

14 Mehefin 2018

Annwyl Brif Weinidog,

Daeth i'm sylw fod Llywodraeth y DU, yn dilyn Ystyriaeth Tŷ'r Cyffredin o welliannau Tŷ'r Arglwyddi i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), wedi cefnogi gwelliant yn lle hynny (rhif 3A) sy'n ymwneud â chyhoeddi Bil drafft sy'n diogelu cyfraith amgylcheddol yr UE.

Ymddengys fod y gwelliant yn gymwys i'r DU gyfan a'i fod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Felly, ymddengys ei fod yn ddarostyngedig i Gonfensiwn Sewel ac i'r weithdrefn cydsyniad deddfwriaethol a bennir yn Rheol Sefydlog 29. Os felly, byddem yn wynebu sefyllfa ddigyffelyb lle ystyrir cydsyniad deddfwriaethol wrth i Fil symud yn gyflym rhwng y ddau Dŷ Seneddol yn ystod ei gyfnod deddfwriaethol olaf.

Os oes angen cydsyniad y Cynulliad cyn i Dŷ'r Arglwyddi eistedd nesaf brynhawn dydd Llun, byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gael ei gynnull ar eich cais o dan Reol Sefydlog 12.3 ac i atal y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â hysbysiadau ynglŷn â chynigion.

Trafododd y Pwyllgor Busnes y potensial ar gyfer Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn ystod cyfnod ping pong ddydd Mawrth, a chytunodd y byddai'r Cynulliad yn gwneud popeth angenrheidiol i hwyluso'r gwaith craffu ar y rhain os ydynt yn berthnasol.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

O gofio'r amserlenni tynn iawn posibl a'r posibilrwydd y byddai'n rhaid i'r Cynulliad gyfarfod y tu allan i'w amser arferol ar gyfer y Cyfarfod Llawn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau cyn gynted â phosibl a ydych yn bwriadu gosod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r gwelliant y cyfeirir ato uchod, er mwyn imi allu roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, yn ogystal ag Aelodau'r Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,

Elin Jones AC
Llywydd

cc: Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
David Rees AC, Cadeirydd Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Mike Hedges AC, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Aelodau'r Pwyllgor Busnes

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

19 Mehefin 2018

Annwyl Mark

Mae'r **Cytundeb Rhynglywodraethol ar y Bil Ymadael** yn datgan bod Llywodraeth y DU yn ymrwymo i beidio â chyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n newid meysydd polisi ar gyfer Lloegr os yw'r deddfwrfeydd datganoledig yn cael eu hatal rhag gwneud hynny o ganlyniad i gyfyngiadau a osodwyd ar eu cymhwysedd gan Weinidogion y DU o dan y pwerau ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ("y Bil").

Mae cymal newydd, a gynigiwyd gan Syr Oliver Letwin AS yn ystod ystyriaeth Tŷ'r Cyffredin o welliannau' Arglwyddi sy'n ymwneud â chynnal egwyddorion amgylcheddol ac a gefnogwyd gan Lywodraeth y DU, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Bil drafft o fewn chwe mis i basio'r Bil. Pe bai cyfyngiadau yn ymwneud â'r amgylchedd yn cael eu gosod ar gymhwysedd datganoledig y Cynulliad rhwng y dyddiad pan ddaw'r Bil i rym a chyhoeddi Bil amgylchedd drafft, gallai Llywodraeth y DU fod yn gweithredu'n groes i'r ymrwymiad a wnaed yn y Cytundeb Rhynglywodraethol, a hynny drwy gyflwyno deddfwriaeth mewn maes polisi sy'n destun cyfyngiadau.

Wrth ystyried rhesymau a gwelliannau Tŷ'r Cyffredin brynhawn ddoe, cytunodd Tŷ'r Arglwyddi â Thŷ'r Cyffredin o ran eu gwelliant 3A, fel y cynigiwyd yn wreiddiol gan Syr Oliver Letwin.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech:

- roi gwybod i'r Pwyllgor a yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwneud â thrafodaethau â Llywodraeth y DU ar oblygiadau'r gwelliant; ac
- egluro, yn eich barn chi, a yw'n bosibl bod y gwelliant yn torri'r Cytundeb Rhynglywodraethol.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

Yn gywir,

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AM
Chair, Constitutional and Legislative Affairs Committee
National Assembly for Wales

19 June 2018

Dear Mick,

Thank you for your letter of 19 June in respect of the Intergovernmental Agreement, and the Oliver Letwin amendment to the European Union (Withdrawal) Bill relating to environmental principles, which was agreed by Parliament on Monday 18 June.

The UK Government is very clear that the draft Bill which the Secretary of State will be required to produce will apply only in England, or to reserved matters. In addition, the amendment requires the Bill to set out a series of cross-cutting environmental principles; it does not oblige the UK Government to produce a Bill which sets out a legislative framework in relation to one of the specific policy areas set out in the Annex to the Intergovernmental Agreement.

As such, on this basis I do not believe that the amendment has the potential to breach the Intergovernmental Agreement, but Welsh Government officials will continue to engage closely with UK Government colleagues as they develop the draft Bill, and will be reminding them of the need to ensure that they are compliant with the Agreement.

Best wishes,

Mark

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales



Mr Karl Heinz Lambertz
President
European Committee of the Regions
Rue Bellard
1040 Brussels
Belgium

Your ref:
Our ref: PO486/EJ/NM

19 June 2018

Dear Mr Lambertz

Thank you for your letter drawing my attention to the useful Resolution adopted by the Committee of the Regions on 16 and 17 May on the Implications of the United Kingdom's withdrawal from the European Union for the EU's local and regional authorities.

The conclusions reached in the resolution will, I am sure, be of great interest to Assembly Members and have been drawn to their attention. I particularly welcome the commitment the Committee made in the Resolution to begin internal preparations to ensure the maintenance of relationships between devolved legislatures and local governments in the UK and the Committee of the Regions following the UK's withdrawal.

I know that discussions on mechanisms to maintain these relationships have been on-going since March and warmly welcome the commitments made to date. You will know that the Assembly's External Affairs and Additional Legislation Committee is currently carrying out work to consider Wales' future relationship with the EU and its regions and I note that you will be meeting the Chair of this Committee to discuss the work further on 26 June 2018.

I remain concerned about the continued delays in the nomination and ratification of the Assembly's Committee of the Regions nominee, Mick Antoniw AM, by the UK Government. I note however, the personal commitment made by the UK



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Government's Parliamentary Under-Secretary of State for Exiting the EU, Robin Walker MP, to the Assembly's External Affairs and Additional Committee to resolve the issue as a matter of priority. I hope that the Assembly will, in the near future, have a full member of the Committee to continue these important discussions on the future relationship between the Committee of the Regions and the National Assembly.

Yours sincerely

Elin Jones AM
Llywydd

cc David Rees AM, Chair, External Affairs and Additional Legislation Committee
Bethan Sayed AM, Committee of the Regions representative
Mick Antoniw AM, Committee of the Regions nominee

**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau'r Cynulliad

19 Mehefin 2018

Annwyl gydweithwyr

Wrth i'r Bil i Ymadael â'r UE gyrraedd ei gamau olaf yn Nau Dŷ'r Senedd, a chyn i ddadl y llywodraeth gael ei chynnal yn y Cynulliad Cenedlaethol yr wythnos hon, ddwy flynedd ar ôl y refferendwm ar Brexit, roeddwn yn awyddus i ysgrifennu at yr holl Aelodau i gadarnhau manylion y Cytundeb Rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Roeddwn hefyd am fanteisio ar y cyfle i fynd i'r afael â'r elfennau o gamddealltwriaeth sy'n bodoli o hyd ac i gywiro rhai datganiadau camarweiniol sydd wedi'u gwneud am y cytundeb.

Mae'r cytundeb hwn yn cadarnhau bod Cymal 11 yn cael ei wrthdroi. Byddai'r Bil, fel y drafftiwyd ef yn wreiddiol, wedi cadw yn San Steffan yr holl bwerau dros feysydd polisi datganoledig a oedd yn 'dychwelyd' o'r UE, a byddai Gweinidogion y Goron yn gallu eu rhyddhau i'r sefydliadau datganoledig yn unol â graddfa ac amserlen a fyddai'n cael eu penderfynu ganddynt hwy yn unig.

Yn awr, cadarnhawyd y bydd yr holl bwerau dros feysydd polisi datganoledig yn aros yn nwylo'r Cynulliad. At hynny, pan fydd y Cynulliad yn cytuno bod angen fframweithiau, mae proses wedi'i sefydlu ar gyfer nodi'r rhain. Pan fydd cyfyngiadau cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn dod i ben, bydd modd i'r sefydliadau datganoledig arfer y pwerau hynny heb y gofyniad presennol i weithredu o fewn fframweithiau'r UE. Yn y meysydd hyn, bydd ein gallu i arfer ein cymhwysedd datganoledig yn cynyddu.

Nid oes unrhyw bwerau o gwbl wedi'u dal yn ôl rhag y Cynulliad ac ni fydd hynny'n digwydd hyd nes y bydd y Cynulliad wedi cael y cyfle i ystyried unrhyw reoliadau drafft a gyflwynir o dan y ddeddfwriaeth.

Mae'r cytundeb yn pennu proses gydweithredol rhwng y llywodraethau i nodi ble mae angen fframweithiau ac i ddatblygu'r rheoliadau drafft hyn sy'n nodi pa rai o bwerau'r UE fydd yn cael eu 'rhewi'. At hynny, mae'n cymhwyso confensiwn Sewel i'r pwerau deddfwriaethol eilaidd hyn – ac fe ofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i Senedd yr Alban

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

am eu cydsyniad. Mae Llywodraeth y DU yn gwneud yr un ymrwymiad i beidio â bwrw ymlaen, fel rheol, heb y cydsyniad hwn fel y mae'n gymwys ar hyn o bryd i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cyffwrdd â pholisïau datganoledig.

Mae'r cytundeb yn cynnwys mesurau diogelu pellach o'i gymharu â Sewel – os bydd Llywodraeth y DU yn dymuno mynd ati i wneud y rheoliadau hyn heb gydsyniad, bydd raid iddi gyflwyno nid yn unig ei barn ei hun, ond barn Gweinidogion datganoledig hefyd, ynghylch pam y mae eu deddfwrfa wedi gwrthod rhoi cydsyniad. Ac er mwyn i farn Llywodraeth y DU fod yn oruchaf, bydd angen i Ddau Dŷ'r Senedd gytuno.

Mae'r cytundeb hwn yn rhoi ar wyneb y Bil gymalau machlud ar gyfer pŵer i greu rheoliadau – ddwy flynedd o'r diwrnod ymadael – ac unrhyw reoliadau a gaiff eu gwneud (uchafswm o bum mlynedd). Ar ôl y dyddiad hwn, bydd yr holl bwerau mewn meysydd datganoledig sydd yn nwylo'r UE ar hyn o bryd yn cael eu harfer yn Holyrood a Bae Caerdydd. Felly, rhywbeth dros dro fydd unrhyw gyfuno cymhwysedd mewn meysydd lle mae gofyn cytuno ar fframweithiau.

Mae'n rhoi gwarant bendant na fydd Gweinidogion y DU yn dwyn gerbron y Senedd unrhyw ddeddfwriaeth yn ymwneud â Lloegr i wneud newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd sy'n ddarostyngedig i reoliadau. Mae hyn, i bob pwrpas, yn creu sefyllfa gyfartal ar draws y DU – effaith y rheoliadau fydd cadw fframweithiau presennol yr UE ar waith drwy'r DU gyfan hyd nes y caiff fframweithiau newydd eu negodi ac y cytunir arnynt. Bydd yr ymrwymiad hwn hefyd yn rhoi ysgogiad cryf i Lywodraeth y DU i gytuno ar fframweithiau ymhell cyn diwedd yr uchafswm o bum mlynedd y darperir ar ei gyfer gan y rheoliadau.

Yn olaf, mae datganiad pendant yn y cytundeb y bydd confensiwn Sewel yn gymwys i unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol gan Senedd y DU a fydd yn cael ei defnyddio i sefydlu fframweithiau y cytunir arnynt ar gyfer y DU gyfan. Mae hyn yn sicrhau nad oes risg y bydd y rheoliadau'n cael eu defnyddio'n sail i ddadlau nad yw Sewel yn gymwys am fod materion y tu hwnt i gymhwysedd am gyfnod dros dro.

Nesaf, rwyf am nodi'n glir rai o'r pethau <u>nad</u> yw'r cytundeb yn eu gwneud:

- Nid oes unrhyw bwerau wedi cael eu hildio – bydd yr holl bwerau sy'n cael eu harfer gan yr UE ar hyn o bryd yn dod i Gymru hyd nes y y cyflwynir rheoliadau i roi pwerau penodol o eiddo'r UE 'yn y rhewgell' tra bydd fframweithiau'n cael eu datblygu. Nid yw'r rheoliadau hyn wedi'u drafftio eto a byddant yn dod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i gael eu hystyried cyn iddynt gael eu gosod yn Senedd y DU. Mae'r atodiad i'r cytundeb yn rhestru'r meysydd lle gellir cyflwyno rheoliadau – gan amlaf, mae'n debygol y bydd angen fframweithiau mewn meysydd cymharol gul o ddeddfwriaeth bresennol yr UE yn y meysydd hynny;

- Nid yw'n caniatáu i Lywodraeth y DU wneud fel y mynn nac i ailysgrifennu cyfreithiau Cymreig tra bo pethau 'yn y rhewgell'. Yr unig newidiadau y gellir eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd hynny yw'r rhai cul a thechnegol y mae eu hangen er mwyn gwneud i'r gyfraith weithio ar ôl Brexit. Mae'r cytundeb yn golygu na all y DU wneud newidiadau i fframweithiau presennol yr UE – hyd yn oed ar gyfer Lloegr – tra bydd pethau 'yn y rhewgell'. Bydd gofyn i lywodraethau negodi ynghylch fframweithiau a chytuno arnynt. Os na fydd hynny'n digwydd, bydd y pwerau'n dod yn ôl i'r Cynulliad ar ddiwedd y cyfnod machlud a bydd modd iddo ddeddfu fel y gwêl orau.

- Nid yw'r cymalau machlud yn golygu na fydd y Cynulliad yn gallu deddfu yn unrhyw un o'r meysydd datganoledig hyn am saith neu wyth mlynedd. Ni fydd unrhyw

gyfyngiadau o’r fath yn bodoli hyd nes y bydd y Cynulliad wedi cytuno arnynt. Lle gosodir cyfyngiadau dros dro ar gymhwysedd, mae’r cytundeb yn golygu na all unrhyw lywodraeth – gan gynnwys Llywodraeth y DU ar ran Lloegr – wneud unrhyw newidiadau i’r status quo. Ac ni fydd modd i’r cymal machlud gael ei estyn gan y Bil – nid yw’n rhoi unrhyw bwerau o’r fath i Weinidogion. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol newydd er mwyn gwneud hynny, a byddai Sewel yn gymwys iddi;

- Yr unig beth y bydd cyfyngiadau ar gymhwysedd yn ei wneud fydd ein hatal rhag deddfu mewn modd sy’n anghydnaws â chyfraith yr UE a ddargedwir, yn union fel yr ydym yn cael ei hatal rhag deddfu mewn modd anghydnaws â chyfraith yr UE ar hyn o bryd. Mae unrhyw awgrym y byddai’r cyfyngiadau hyn wedi’n hatal rhag pasio Deddfau megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hollol anghywir. Cafodd Deddfau o’r fath eu gwneud o fewn y cyfyngiadau sydd wedi’n hatal rhag deddfu mewn modd anghydnaws â chyfraith yr UE ers i’r Cynulliad Cenedlaethol gael ei sefydlu;

- Mae’r cytundeb hwn yn fwy na darn o bapur nad oes iddo unrhyw effaith rwymol ar Lywodraeth y DU. Cafodd ei negodi’n hynod ofalus a manwl. Mae’n ymrwymiad clir a phendant gan Lywodraeth y DU ac nid oes gennym unrhyw reswm dros gredu na fydd yn glynu’n llawn wrth delerau’r cytundeb. Mae ein peirianwaith rhynglywodraethol wedi’i seilio ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd â’r un statws – ac mae hynny’n wir am y fframwaith cyllidol hefyd.

- Nid yw’r cytundeb yn diffinio cydsyniad mewn modd sy’n golygu bod y Cynulliad wedi rhoi ei farn, boed hynny i roi cydsyniad neu i’w wrthod. Diben y cyfeiriad at y ‘penderfyniad cydsynio’ yn y gwelliannau, yn syml, yw caniatáu i gamau gael eu cymryd yn gyflymach na’r cyfnod 40 diwrnod a ragwelir, os bydd yr holl ddeddfwrfeydd datganoledig wedi mynegi barn yn barod. Ymrwymiad Llywodraeth y DU yw peidio, fel rheol, â gosod rheoliadau gerbron y Senedd heb gydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol, nid heb benderfyniad cydsynio.

Yn olaf, awgrymwyd ei bod yn sefyllfa warthus yn gyfansoddiadol bod Senedd y DU yn gallu mynd yn groes i ewyllys y Cynulliad Cenedlaethol ar faterion datganoledig. Fodd bynnag, dyna yw sail y setliad cyfansoddiadol presennol. Mae’r cytundeb yn rhoi mesurau diogelu ychwanegol o ran y modd y mae confensiwn Sewel yn gweithredu.

Rwy’n edrych ymlaen at y ddadl ddydd Mawrth.



**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Mehefin 2018

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: ***Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit?*** Rwyf yn ddiolchgar am waith parhaus y Pwyllgor wrth sicrhau bod goblygiadau ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn cael eu hystyried yn llawn a bod paratoadau priodol yn cael eu gwneud er mwyn diogelu buddiannau Cymru.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi eto sut y bydd y trefniadau pontio'n gweithio, ac er gwaethaf pwysau cyson o du Llywodraeth y DU ar gyfer eglurhad, yn achos llawer o'r materion a godwyd yn eich llythyr nid ydym yn gwybod beth yw bwriad y Llywodraeth. Pan fyddwn yn gwybod mwy, yn amodol ar ymdrin ag unrhyw faterion cyfrinachol, byddwn yn disgwyl rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu ymhellach â'r Cynulliad.

Fel y gwyddoch, yn ein Papur Gwyn, dadleuodd Llywodraeth Cymru fod angen cyfnod pontio gan y byddai'n amhosibl negodi cytundeb ymadael a sefydlu sylfaen perthynas â'r UE o fewn dwy flynedd.

Croesawyd felly'r cytundeb yn y Cyngor Ewropeaidd ym mis Mawrth ar y trefniadau ar gyfer cyfnod pontio hyd at Ragfyr 2020, yn ddarostyngedig i negodi Cytundeb Ymadael cynhwysfawr yn foddhaol.

Yn ystod y cyfnod pontio arfaethedig, byddai'r DU yn cadw holl fanteision bod yn aelodau o'r UE ond byddai'n colli ei hawliau i gael cynrychiolaeth wleidyddol yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sefydliadau'r UE. Bydd hyn yn galluogi'r DU i barhau i gyfranogi at y Farchnad Sengl ac i fod yn aelod o'r Undeb Tollau tra bydd ymchwiliadau a negodiadau ar gysylltiadau masnachu yn y dyfodol. Mae'r cynnydd hwn i'w groesawu a bydd yn achub ein busnesau, ein dinasyddion a'n gwasanaethau cyhoeddus rhag dibyn clogwyn peryglus pan fyddwn yn ymadael â'r UE yn ffurfiol. Bydd yn rhoi hyder i fusnesau gynllunio at y tymor canolig.

Er hynny, yn dâl am hynny bydd yn ofynnol i'r DU gael ei rhwymo gan bob un o elfennau'r *acquis* yn ystod y cyfnod pontio ac adlewyrchu unrhyw newidiadau yn neddfwriaeth yr UE neu benderfyniadau gweinyddol sy'n digwydd yn ystod y cyfnod pontio. Mae hyn yn codi rhai materion cymhleth iawn ynghylch sut y caiff unrhyw benderfyniadau gan yr UE eu trosglwyddo i'r DU a'u gweithredu yn y DU pan fydd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd wedi'i diddymu. Ac fel yr wyf wedi dweud nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi gwybodaeth hyd yn hyn am sut y bwriedir mynd i'r afael â'r materion hyn .

Hoffwn annog y Pwyllgor felly, i geisio eglurhad gan Lywodraeth y DU, yr un pryd â cheisio tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru.

Gyda'r cafeat hwn, o safbwynt eich cwestiynau penodol, atebaf y rhain i'r graddau rwyf yn gallu darparu gwybodaeth, o gofio dealltwriaeth bresennol Llywodraeth Cymru.

- **Pa broses a ddilynir ar gyfer trawsosod, gweithredu a gorfodi cyfraith yr UE yn ystod y cyfnod pontio? / Pa rôl ddylai Llywodraeth Cymru ei chael yn y broses hon?**

  Ar hyn o bryd nid ydym yn gwybod sut y mae Llywodraeth y DU'n bwriadu gwneud hyn.

  O ran egwyddor, byddem yn disgwyl gweld mesur uchel o debygrwydd rhwng yr arfer yn awr ac yn ystod y cyfnod pontio ac y byddai hyn yn cynnwys y rôl sydd gan Lywodraeth Cymru.

  Er hynny, mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol diweddar ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin wedi nodi'r gweithdrefnau penodol i'w dilyn yn y meysydd lle mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cytuno bod angen sefydlu fframweithiau cyffredin.

- **Pa gamau paratoadol y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu cymryd cyn i'r cyfnod pontio ddechrau?**

  Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth y DU i bwyso arni i ddarparu'r holl wybodaeth a fydd yn caniatáu inni baratoi'n effeithiol ar gyfer y cyfnod pontio.

  Fel y gwyddoch, cyhoeddwyd Cronfa Bontio'r UE yn gynharach eleni. Cafodd y Gronfa ei sefydlu i helpu busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau partner eraill yng Nghymru i gynllunio a pharatoi ar gyfer effeithiau Brexit. Mae'r

gronfa newydd hon yn rhan o'n cynlluniau ar gyfer Brexit i helpu busnesau a gwasanaethau cyhoeddus i baratoi at y newidiadau sylweddol sydd o'n blaenau cyn ac yn ystod y cyfnod pontio. Bydd y gronfa'n gweithio ochr yn ochr â'n cymorth ariannol presennol ac yn helpu ein sefydliadau partner i ymestyn allan i'r byd.

- **A fydd strwythur rhynglywodraethol o fewn y DU wedi'i sefydlu i gefnogi'r broses hon (fel y Cyd-bwyllgor Gweinidogion Ewrop cyfredol)?**

Unwaith eto, ar hyn o bryd, nid ydym wedi cael unrhyw wybodaeth glir oddi wrth Lywodraeth y DU ar y mater hwn. Gan na fydd y DU yn cael ei chynrychioli bellach yng Nghyngor y Gweinidogion, mae'n bosibl y byddai'n well gan Lywodraeth y DU weithio trwy'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) na'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Ewrop) presennol. Beth bynnag, rwyf yn gobeithio y gallwn barhau i weithio ar draws y DU mewn ffordd adeiladol, fel yr ydym wedi ymdrechu i'w wneud hyd yn hyn.

Buom yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod gan y gweinyddiaethau datganoledig fwy o ran mewn negodiadau ar berthynas y DU â'r UE yn y dyfodol. Mae Fforwm Gweinidogol newydd ar negodiadau'r UE wedi cael ei sefydlu i gynnig cyfle i'r gweinyddiaethau datganoledig gyfrannu at ddatblygu safbwynt negodi i'r DU ac fe gyfarfu am y tro cyntaf ar 24 Mai yng Nghaeredin. Datblygiad i'w groesawu yw hwn.

Fel y gwyddoch mae Llywodraeth Cymru'n credu bod angen ailwampio peirianwaith cyfan y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar sail model cyd-lywodraethu a'i ddisodli â Chyngor y Gweinidogion yn y tymor hwy. Yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Cyfarfod Llawn) ym Mawrth, rhoddwyd ymrwymiad y byddai swyddogion yn adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol i sicrhau bod y JMC yn addas at ei ddiben yn sgil Brexit. Cyfarfu swyddogion o bedair gweinyddiaeth y DU ym Mai i ddechrau gwaith manwl ar yr adolygiad hwn a bydd hyn yn parhau dros y misoedd i ddod. Disgwylir adroddiad interim yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Byddwn yn pwyso ar Lywodraeth y DU i gydweithio â ni ac â'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i ymchwilio i'r strwythurau rhynglywodraethol gorau ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol ar faterion yr UE, a allai olygu yn y tymor byr rôl barhau i JMC(E), a/neu ddefnyddio JMC(EN) neu o bosibl y Fforwm Gweinidogol newydd.

- **Sut bydd y ddau Fil ymadael (Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Bil y Cytundeb Ymadael a'i Weithredu) yn rhyngweithio o ran y cyfnod pontio?**

Nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei chynigion eto ar gyfer Bil y Cytundeb Ymadael a'i Weithredu (WAIB), ond cawn ar ddeall y bydd angen i hwn sefydlu mecanweithiau i gyflawni ymrwymiadau'r DU o safbwynt y cyfnod pontio. Bydd angen, er hynny, inni gael manylion cynnwys WAIB cyn asesu'n llawn yr effaith y bydd yn ei chael. Mewn sgyrsiau cychwynnol ar lefel swyddogol rydym wedi gofyn am drafodaeth lawn ar lefel y Gweinidogion ar WAIB i geisio caniatáu inni

ddeall a dylanwadu ar ei ddatblygiad. Byddwn yn anelu at roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor cyn gynted ag y byddwn mewn sefyllfa i wneud hynny.

- **Sut y cyflwynir barn Llywodraeth Cymru ar ddeddfau drafft yr UE mewn meysydd datganoledig i'r Undeb Ewropeaidd?**

  Byddwn yn parhau i achub pob cyfle i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu parchu, a hynny'n anffurfiol trwy rwydweithiau sy'n bodoli eisoes a hefyd trwy fynychu grwpiau sydd eisoes yn bodoli lle bo modd.

- **A fydd Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli ar Gyd-bwyllgor yr UE-DU a sefydlwyd o dan y Cytundeb Ymadael?**

  Ein man cychwyn yw y dylem gael y cyfle i fod yn rhan o gynrychiolaeth y DU, fel y mae'r Concordat ar Gydgysylltu Materion Polisi'r Undeb Ewropeaidd o fewn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ei nodi mewn perthynas â phresenoldeb yng nghyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion. Byddwn yn gofyn i Lywodraeth y DU am eglurdeb ar y mater hwn.

  Gobeithio y byddwch yn gwerthfawrogi nad yw'r darlun cyflawn mewn perthynas â'r trefniadau pontio wedi dod i'r amlwg eto oherwydd yr ansicrwydd presennol. Byddwn yn falch o ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor, os bydd arnoch ei hangen, pan fydd rhagor o fanylion am safbwynt Llywodraeth y DU ar gael.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Department for Exiting the European Union

**Robin Walker MP**
Parliamentary Under Secretary of State
for Exiting the European Union
9 Downing Street
SW1A 2AG

+44 (0)20 7004 1249
psrobinwalker@dexeu.gov.uk
www.gov.uk

David Rees AM
Chair
External Affairs and Additional Legislation Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

20 June 2018

Dear David,

**EXTERNAL AFFAIRS AND ADDITIONAL LEGISLATION COMMITTEE - INQUIRY INTO EUROPEAN LAW IN WALES DURING THE IMPLEMENTATION PERIOD**

Thank you for your letter outlining the Committee's new inquiry "European Union Law in Wales: What happens during the Brexit transition period?".

As you know from my previous appearances in front of your committee, I am keen to engage with the Welsh Government and the National Assembly as we continue preparations for exiting the EU, and progress the programme of exit legislation.

I have responded to the Committee's questions below, but would stress that some of the detail of the process is still being developed and, of course, is ultimately subject to the final Withdrawal Agreement with the EU. I would be happy to provide further information to the committee at a later stage when more detail has been confirmed, particularly the content of the Withdrawal Agreement and Implementation Bill (WAIB).

Yours,

**ROBIN WALKER MP**
**PARLIAMENTARY UNDER SECRETARY OF STATE**
**FOR EXITING THE EUROPEAN UNION**

**What process will be followed for the transposition, implementation and enforcement of EU law during transition?**

We have been very clear that the implementation period will provide continuity and certainty to businesses and citizens as we leave the EU. While the UK will no longer be a member state, the UK and the EU have agreed in the draft Withdrawal Agreement that common rules will remain in place and continue to apply in the UK, with a few exceptions, during the time-limited implementation period. This will ensure that both sides only have to prepare for one set of changes as we move towards our future relationship with the EU. The WAIB will implement the major elements of the Withdrawal Agreement in domestic law, including giving effect to the implementation period.

**What role do you anticipate for the Welsh Government in this process?**

As with all legislation, the UK Government will continue to consult with the Welsh Government on the development of the WAIB and parts that will impact on devolved matters, and will seek the consent of the National Assembly for Wales where appropriate.

**Will there be an intra-UK intergovernmental structure established to support this process (such as the current JMC Europe)?**

There are a number of inter-governmental structures that already exist to facilitate and involve the devolved administrations in the process of the UK's exit from the EU. At the last meeting of the Joint Ministerial Committee (Plenary) officials were remitted to review the existing range of intergovernmental structures to ensure they are fit for purpose in light of EU exit.

**How will the two withdrawal Bills (the EU (Withdrawal) Bill and the Withdrawal Agreement and Implementation Bill) interact with regards to the transition period?**

The WAIB will be used to implement the major elements of the Withdrawal Agreement in domestic law. It will be this Bill - not the EU (Withdrawal) Bill - that will give effect to the implementation period, including making changes to other legislation if necessary. It is possible that some provisions in other EU exit Bills, including in the EU (Withdrawal) Bill, may not take effect until the end of the implementation period. The EU (Withdrawal) Bill remains crucial because it provides for continuity in the law when EU rules and regulations cease to apply.

**How will the views of the Welsh Government on draft EU laws in devolved areas be presented to the European Union during the transition period?**

At present, the devolved administrations work closely with UK Government departments in developing the final UK Government position on draft EU laws which impact on devolved areas. We anticipate maintaining this system during the implementation period. The Inter-Governmental Relations review commissioned by JMC(Plenary) may further refine this process.

**Will the Welsh Government be represented on the EU-UK Joint Committee established under the WA?**

Arrangements for the Joint Committee are still being determined and it will be comprised of representatives from both the UK and the EU who have the necessary expertise and experience. As now, the UK Government will have responsibility for negotiating and representing the UK as a whole, engaging fully with all of the devolved administrations.

**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Angus MacNeil MP
Chair
House of Commons Select Committee on International Trade

21 June 2018

Dear Angus

I welcome the opportunity to give written evidence to your committee's inquiry into the appropriate level of transparency and scrutiny of UK trade strategy and negotiations post Brexit.

May I begin by stating that the Welsh Government believes it is imperative that the UK Government engages comprehensively and effectively with the devolved institutions on the development of trade policy, on mandates for specific trade negotiations and on the negotiations themselves to ensure the future UK trade relationships work in the interests of the whole of the UK. It is essential that there is fairness and transparency in how future trade agreements are reached

Wales is an outward-looking, globally trading nation and we have a significant interest in trade. Whilst we accept that international trade is a reserved matter, there are clearly devolved interests, such as agriculture, which intersect with UK trade policy and there are clear risks to Wales if the UK Government's future trade policy does not adequately represent the needs of Welsh industry. It is vital that Welsh Government is involved early in the process of negotiating any future free trade agreements so we can effectively share information and influence outcomes.

I must emphasise that underpinning all our answers to the specific questions you pose is the call for the establishment of a Council for Ministers, whose remit would include consultation on trade issues between the four administrations. In the meantime, and as an interim step pending the substantial reform of inter-governmental machinery we believe a Joint Ministerial Committee (JMC) on International Trade should be established to enable timely and comprehensive consultation on overall trade policy and individual trade negotiations.

In addressing the questions you raise, I would wish to stress that I am responding on behalf of the Welsh Government and do not presume to speak for the National Assembly as a legislature. I would anticipate that they would wish to respond separately

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Turning now to your specific questions, our responses are:

1. **Which documents pertaining to trade policy and negotiations should the Government make publicly available – and which should remain confidential?**

Public interest in trade policy has increased in recent years. In developing trade policy for the UK going forward, the UK Government needs to ensure that it works with Devolved Administrations, consults with citizens and businesses and talks to civil society – ensuring that all stakeholders are included from the start.

We are supportive of the EU approach to transparency and would support a similar system being adopted in the UK. We propose the following:

- Publication of the negotiating mandate and any Impact Assessments that accompany the mandate.
- Publication of negotiating round reports – to keep the public up to date with progress.
- Publication of the negotiated agreement, without waiting for the full legal revision to be completed.

2. **What level of access should Parliament and the devolved administrations and legislatures have to trade policy documents, including trade negotiation texts?**

We have addressed above the issue of which documents should be publicly available.

Welsh Government fully understands that a certain level of confidentiality is necessary to protect the UK position in a negotiation, but our starting point is that there are well established protocols for sharing sensitive and confidential information between the UK Government and the Devolved Administrations on a privileged basis. We therefore believe that the UK Government should share with the Devolved Administrations trade policy documents and detailed updates on negotiations and on evolving negotiating strategy and tactics, especially insofar as they relate to areas of devolved competence. All parties need to work to build trust, allowing the sharing of documents in confidence. We propose the following mechanisms to help with this:

- The creation of a Joint Ministerial Committee on International Trade would be a big step to providing the governance structure needed to allow Ministers from the four administrations to work together to agree on priorities for trade negotiations, particularly in respect of areas of devolved competence.
- Supporting this forum with a Senior Officials level group would provide the forum for administrations to be able to openly share documents throughout the negotiations process.
- In areas of devolved competence Welsh Government should be part of the negotiations – whether that is ‘in the room’ or ‘in the room next door’.

3. **How should the Government consult business and civil society groups on trade policy matters, including prospective and on-going trade negotiations?**

Again we are supportive of the EU approach to consultation and would support a similar system being adopted in the UK. We propose the following:

- Formal consultation before the mandate is signed off and published – allowing stakeholders to comment on the mandate and impact assessments.

- Potentially, using the Joint Ministerial Committee on International Trade as a conduit for stakeholder consultation, particularly in respect of stakeholders in the devolved nations.
- A UK wide Advisory Group with representatives across businesses and civil society – ensuring that the UK Government has to take in to account the interests of stakeholders across the whole of the UK which would allow views on the mandate and negotiating round reports to feed back to negotiating teams.
- A stakeholder round table, including representation from the respective legislatures, in each of the four administrations, that feeds in to the Advisory Group – again allowing views on mandate and negotiating round reports to feed back to negotiating teams.

**4. What role should Parliament and devolved administrations and legislatures have in drafting and/or approving the UK's negotiating mandate for trade negotiations?**

A Joint Ministerial Committee on International Trade would provide the governance structure needed to allow Ministers from the four administrations to work together to agree a negotiating mandate for trade negotiations.

Despite trade being a reserved matter, trade has significant intersection with devolved powers in areas like environmental standards, economic development, agriculture and skills and qualifications. Hence decisions on the new trading relationships with the EU and wider world must be taken in close co-operation between the UK Government and Devolved Administrations in order to reflect the interests of the whole of the UK.

We would anticipate that the Welsh Government would be responsible for seeking the views of the National Assembly and informing the National Assembly of the representations it has made within the Joint Ministerial Committee on International Trade while respecting the confidentiality of matters under discussion.

**5. What procedures should be in place for the UK Parliament and devolved administrations/legislatures to scrutinise trade agreements as they are being negotiated?**

Again a Joint Ministerial Committee on International Trade and supporting Senior Officials Group would provide the governance structure needed to allow Ministers from the four administrations to scrutinise a negotiating mandate for trade negotiations in a strictly confidential way. We are also calling for Welsh Government officials to be part of the negotiations in areas of devolved competence.

We have also proposed that the UK adopts a European style remit to transparency and hence publishes negotiating round reports.

We would anticipate that the Welsh Government would formally consult the National Assembly (via appropriate Committees) on documents put into the public domain by the UK Government, notably the draft negotiating mandate and impact assessments in order to inform its input into inter-governmental discussions on trade issues.

6. **What powers should Parliament and the devolved administrations and legislatures have over the ratification and implementing legislation of UK trade agreements?**

We believe that any responsible UK Government would want to avoid major constitutional disputes over the implementation of trade agreements which might impact on, or require changes to policies within devolved competence. This is best achieved by early, full and meaningful consultation with the Devolved Administrations (and, through them, devolved legislatures) when agreeing – and, if necessary, departing from - negotiating mandates. A policy of inclusive policy development and 'no surprises' will ensure that trade agreements can be ratified and implemented without resorting to the legal powers which the UK Government currently possesses to force devolved institutions to comply with agreements which it has negotiated.

I look forward to reading the report of your inquiry in due course.

I am copying this letter to the Secretary of State for Wales, Alun Cairns; Cabinet Secretary for Economy, Jobs and Fair Work, Keith Brown MSP; The Minister for UK Negotiations on Scotland's Place in Europe, Michael Russell MSP; David Sterling as Head of the Northern Ireland Civil Service as well as the Chairs of the External Affairs and Additional Legislation and the Economy, Infrastructure and Skills Committees of the National Assembly

Yours sincerely



**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon